Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Y Ddraig @Gwaunmeisgyn**

**Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn**
**Woodland Road, Beddau**
**Pontypridd**
**CF38 2SE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Clwb Y Ddraig @Gwaunmeisgyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Y Ddraig CYF |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn cael hwyl yn chwarae gyda'u ffrindiau ac yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gynnes ac yn ymatebol ac yn darparu gofal diogel a magwrus. Mae'r staff yn cynnig gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant ac mae'r mwyafrif ohonynt yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu'n dda â'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn ddiogel. Mae asesiadau risg a rhestrau gwirio dyddiol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau a gweithgareddau addas. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn diwallu anghenion y plant i gyd am ddiwrnodau llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith. Maent yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac yn buddsoddi ynddo. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthuso ac yn cynllunio gwelliannau lle bo angen er budd y plant yn eu gofal.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr yn dda, ac yn cyrraedd y lleoliad gyda gwên ar eu hwynebau. Maent yn cyfarch y staff yn hapus ac yn sgwrsio â nhw wrth gyrraedd. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad gan eu bod yn ei fynychu'n rheolaidd. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn achlysurol yn setlo'n gyflym ac yn teimlo bod croeso iddynt. Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn symud yn annibynnol ac yn hyderus o gwmpas y lleoliad.

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau. Er enghraifft, maent yn dewis rhwng y gweithgaredd crefft sydd ar gael neu weithgareddau chwarae rhydd. Maent yn hyderus i siarad â'r staff ac i fynegi eu safbwyntiau. Caiff y plant eu cynnwys wrth gynllunio'r gweithgareddau ac, o ganlyniad, maent yn gwybod y gwrandewir ar eu safbwyntiau. Gallant ddewis beth i chwarae ag ef o'r dewis o adnoddau sydd ar gael. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi gallu cael gafael ar yr adnoddau y maent yn dymuno chwarae â nhw yn annibynnol yn y gorffennol.

Mae llawer o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant iau yn dechrau meithrin sgiliau cymdeithasol pwysig fel cymryd tro a rhannu â'u ffrindiau. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae'n dda â'i gilydd ac yn rhannu ceir. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau da â'i gilydd, ac wedi gwneud ffrindiau newydd. Dywed y plant wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud ffrindiau newydd y tu allan i'r ysgol. Mae llawer o'r plant yn parchu'r adnoddau ac yn helpu i dacluso rhwng gweithgareddau.

Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd a threulio amser ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn hapus ac yn mynegi eu mwynhad yn y lleoliad. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored pan fyddant yn cael cyfle i wneud hynny, a'u bod hefyd yn hoffi amser byrbryd a gweithgareddau crefft.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig. Maent yn cyrraedd yn hapus, yn gosod eu heiddo yn yr ystafell gotiau, ac yn dilyn arferion cyfarwydd. Caiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo wrth iddynt wneud dewisiadau yn ystod amser byrbryd, gan gynnwys dewis beth i'w gael fel byrbryd. Maent yn aml yn helpu i baratoi eu byrbryd eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau bwyta'n iach o'r dewisiadau sydd ar gael. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldeb o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon ac yn cydnabod y ddyletswydd sydd arnynt i roi gwybod am bryderon o'r fath. Mae'r staff yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon, damweiniau a digwyddiadau yn ymwneud â'r plant ac yn sicrhau y rhoddir gwybod i'r rhieni amdanynt. Maent yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'r staff yn cofnodi pan fydd unrhyw feddyginiaeth yn cael ei rhoi i blentyn ac yn cael caniatâd cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth. Mae polisi meddyginiaeth ar waith sy'n darparu gweithdrefnau ar gyfer meddyginiaeth a ragnodwyd a meddyginiaeth heb ei rhagnodi. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn. Maent yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod angen cynnal ymarferion tân ychwanegol yn ystod sesiynau gwyliau er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu yn cael budd o ymarferion tân. Cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad y byddent yn adolygu hyn a gwnaethant ddarparu tystiolaeth o ymarferion tân ychwanegol yn dilyn ein hymweliad. Mae'r staff yn hybu iechyd a hylendid yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn annog ac yn helpu'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac yn eu hannog i fwyta'n iach yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn canmol y plant am dacluso'n dda ar ôl gweithgareddau chwarae. Mae'r staff yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd ac amseroedd bwyd. Mae'r mwyafrif o'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chynnes â'r plant yn eu gofal. Wrth i'r plant gyrraedd y lleoliad, mae'r staff yn eu croesawu ac yn trafod yr arferion mewn ffordd bwyllog a chefnogol. Mae'r staff yn defnyddio dulliau effeithiol i annog y plant i gydweithio. Er enghraifft, gwelsom y staff yn cynnig cymorth a gwahanol ddatrysiadau pan oedd dau blentyn am ddefnyddio'r un deunyddiau crefft.

Mae'r staff yn cynnig gweithgareddau â phwyslais penodol sydd wedi'u cynllunio yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant, fel crefft a choginio, a gweithgareddau â thema fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain yn ystod amser chwarae rhydd. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn adnabod pan fydd angen cymorth ar blant i gymryd rhan yn eu gweithgareddau chwarae rhydd. Mae'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant a phan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi clwb ‘dwyieithog Cymraeg/Saesneg’ ydyw. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rheolaidd ac, yn ystod yr arolygiad, nid oedd digon o adnoddau Cymraeg ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Caiff y lleoliad ei gynnal mewn ysgol gynradd, a darperir y gofal yn y neuadd yn bennaf. Mae cloch ar gael i'r rhieni ei defnyddio pan fyddant yn casglu eu plant, a chedwir cofrestrau o bresenoldeb y plant. Mae ymwelwyr yn cyrraedd drwy'r brif fynedfa a chaiff cofnod o ymwelwyr ei gadw. Mae'n ofynnol i'r staff hefyd lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad a phan fyddant yn cymryd egwyliau. Mae'r staff yn sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae asesiadau risg ar waith, ac mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y tystysgrifau yswiriant yn ddilys. Yn ystod yr arolygiad, adolygodd yr Unigolyn Cyfrifol ddogfennau eraill mewn perthynas â gwiriadau diogelwch yr adeilad, fel gwiriadau tân a thrydan.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal chwarae dan do yn cynnig cyfleoedd i'r plant symud o amgylch yn hwylus. Mae'r ardal yn fawr ac yn cynnig lleoedd addas i'r plant chwarae, bwyta a mwynhau gweithgareddau â phwyslais penodol. Mae'r plant yn defnyddio byrddau a chadeiriau o uchder addas. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ardaloedd ymlacio cyfforddus yn ystod ein harolygiad. Mae toiledau’r plant yn gyfleus, yn cynnal preifatrwydd ac urddas y plant, ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu. Cadarnhaodd y staff a'r plant y gwnaethom siarad â nhw fod y lleoliad yn defnyddio iard chwarae fawr ac iard lai, er nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio yn ystod ein harolygiad am fod y tywydd yn arw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod teganau, gemau ac adnoddau addas ar gael i'r plant yn y lleoliad. Caiff y rhain eu storio mewn cwpwrdd ar ochr y neuadd yn bennaf. Dywedodd y staff a'r plant y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn darparu'r adnoddau i'r plant. Fodd bynnag, am rai cyfnodau yn ystod y sesiynau, gwelsom ddiffyg adnoddau i ddiwallu anghenion ac oedrannau'r holl blant a oedd yn bresennol, ac ni allai'r plant gael gafael ar adnoddau yn annibynnol. Cydnabu'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hyn, ac maent wedi cadarnhau eu bod yn gweithio gyda'r staff i adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddarparu clwb y tu allan i oriau ysgol sy'n gwasanaethu'r teuluoedd yn yr ardal a lle mae'r plant yn teimlo'n hapus, yn ymddiddori yn y gweithgareddau, ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac maent yn rheoli'r lleoliad i safon dda. Mae rhwydwaith cymorth a phrosesau'r cwmni o fudd i'r person â chyfrifoldeb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith, sy'n cael eu hadolygu, a chaiff gwelliannau eu gwneud. Er enghraifft, cafodd y polisi disgyblu staff ei ddiweddaru'n ddiweddar yn seiliedig ar adborth. Fodd bynnag, nid yw'r polisi gofal iechyd / gwahardd yn cyfeirio at ganllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu lleoliad ac yn llunio adroddiad blynyddol. Maent yn cyflwyno hwn a Hunanasesiad o'r Gwasanaeth i AGC yn flynyddol fel sy'n ofynnol. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r plant am y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fyfyriol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn barod i dderbyn adborth ac yn gweithredu ar faterion y tynnir eu sylw atynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd cael tîm o staff hyderus sydd wedi'u hyfforddi'n dda, ac maent yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Mae'r matrics staff yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf a bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y gweddill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y profiad a'r cymwysterau priodol, ac mae proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r staff gynnig eu barn yn anffurfiol ac yn ffurfiol drwy sesiynau goruchwylio un i un. Dywed y staff fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gefnogol, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n broffesiynol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith, er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol. Mae'r weithdrefn yn rhoi cyfleoedd i'r plant yn ogystal â'r oedolion godi materion. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau da ag asiantaethau allanol fel Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni. Er enghraifft, caiff gwybodaeth ei rhannu drwy dudalen we ac apiau cyfathrebu symudol. Mae'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod lle i'r plant ymlacio, chwarae'n dawel neu orffwys os byddant am wneud hynny. |
| Safon 4 – Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod y staff yn diwallu ac yn bodloni anghenion a dewisiadau pob plentyn yn ystod y gweithgareddau. |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu cylchdroi ar adegau addas er mwyn ennyn diddordeb pob plentyn a diwallu ei anghenion, yn unol â'i gam datblygu. |
| Safon 4 – Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod y staff yn defnyddio ac yn hybu Cymraeg achlysurol ac adnoddau Cymraeg yn gyson. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu'r polisi gofal iechyd a meddyginiaeth a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/03/2024